# THOMAS, WILLIAM THEOPHILUS ('Gwilym Gwenffrwd '; 1824 - 1899), gweinidog gyda'r Annibynwyr, a bardd



**Enw:** William Theophilus Thomas
**Ffugenw:** Gwilym Gwenffrwd
**Dyddiad geni:** 1824
**Dyddiad marw:** 1899
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr, a bardd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn Nhreffynnon, Sir y Fflint, 1824. Aeth yn ddyn ifanc i Fanceinion. Ymunodd yno â'r eglwys Annibynnol Gymraeg yn Gartside, a bu o wasanaeth mawr iddi ac i eglwysi'r cylch. Cymhellwyd ef i ddechrau pregethu, a phregethodd yn gynorthwyol hyd 1851, pryd yr odeiniwyd ef yn Cana, Llanddaniel, sir Fôn. Collodd ei iechyd yn y tymor byr y bu yno. Wedi iddo ymddeol a gorffwys am ysbaid, adnewyddwyd ei nerth a symudodd i fyw i'r Wyddgrug i wasnaethu eglwysi Annibynnol Soar a Jerusalem yn ymyl y dref. Ym Manceinion cyfathrachai â beirdd a llenorion cymdeithasau Cymraeg y ddinas ac arferai ei ddawn i lenydda a barddoni. Ysgrifennodd lawer o ryddiaith a barddoniaeth i'r newyddiaduron a'r cylchgronau Cymraeg. Cyhoeddodd *Y Trefniedydd Cyfreithiol*, 1863, a *Sylwadau ar Fodolaeth Enaid*, 1883. Bu farw 11 Mai 1899 yn yr Wyddgrug.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau


*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iv, 429

*The Congregational Year Book*, 1900

H. Blackwell, NLW MS 9271A: A Dictionary of Welsh Biography

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: William Theophilus Thomas

## Gweithiau

Gwilym Gwenffrwd, *Ymgom ar Ddeddf Newydd yr Angladdau* (Bala 1881)

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20568221

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu